

## Sut benderfynwyd ar y blaenoriaethau?

- Mae'r ysgol yn dilyn cylch arfarnu sy'n cynnwys tair wythnos monitro benodedig. Mae pawb yn chwarae rhan yn yr wythnosau monitro.
- Yn ystod yr wythnosau monitro, byddwn yn craffu ar bopeth, o wersi i lyfrau, holiaduron, data, trafodaethau. Mae'r cyfan yn cael ei goladu a'i ddadansoddi cyn penderfynu ar gamau gweithredu.
- Mae'r blaenoriaethau'n bwydo ein Cynllun Datblygu ysgol a Chynlluniau Datblygu Adrannau.
- Byddwn yn adolygu'r cynlluniau hyn yn gyson ac yn newid / ychwanegu at y blaenoriaethau yn ôl yr angen.

## Gwerthuso Cynllun Datblygu 2023-24

- Rhoddwyd trefniadau yn eu lle ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru i flwyddyn 9 ym Medi 2024. Y cam naturiol nesaf fydd paratoi ar gyfer cyflwyno'r don gyntaf o gyrsiau TGAU newydd yn Medi 2025. O ran sgiliau, rhoddwyd sylw i ddatblygu sgiliau darllen disgyblion a'u gallu i weithio'n annibynnol. Bydd angen parhau a hyn yn 2024-25 gan ganolbwyntio mwy ar ddatblygu geirfa a sgiliau rhifedd.
- Rhoddwyd arweiniad a hyfforddiant i ddatblygu rôl y tiwtor, ac mae hyn, yn ogystal a chyflwyno modiwl ymddygiad Go4Schools, wedi cysoni a chryfhau effeithiolrwydd delio a chamymddwyn.
- Profodd gweithdai datblygiad proffesiynol yn boblogaidd yn 2023-24 ac mae'n fwriad adeiladu ar hyn ymhellach yn 2024-25.

## Blaenoriaethau 2024-25

### DYSGU AC ADDYSGU

- Parhau i ddatblygu sgiliau disgyblion gyda ffocws ar y Gymraeg, rhifedd, datblygu geirfa a sgiliau byd gwaith.

### LLES, GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

- Sicrhau'r gefnogaeth orau i ddisgyblion sy'n wynebu rhwystrau yn eu dysgu. Yn benodol:
  - Presenoldeb isel
  - ADY / Niwroamrywiaeth
  - Disgyblion bregus
  - Tlodi
  - Ymddygiad gwael neu gymhelliant isel

### ARWAIN A GWELLA

- Cynllunio ar gyfer y don gyntaf o gyrsiau TGAU newydd ym Medi 2025
- Arloesi yn ein darpariaeth Datblygiad Proffesiynol

### AR DRAWS Y MEYSYDD

- Gwella ansawdd adroddiadau i rieni gan sicrhau ein bod yn adrodd ar les disgyblion

## Sut fyddwn yn gweithredu?

- Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol a chynlluniau gwella adrannau yn cynnwys camau gweithredu clir ar gyfer pob blaenoriaeth. Mae cyllid, cerrig milltir adolygu, cyfrifoldebau ac anghenion hyfforddi wedi eu nodi yn y cynlluniau.
- Bydd yr Uwch Dim Arwain yn adolygu'r CD Ysgol bob pythefnos o fis Hydref ymlaen ac adrannau'n adolygu eu cynlluniau mewn cyfarfodydd adrannol.
- Bydd pob cynllun yn cael ei werthuso a'i ddiweddarau ar ôl y tair wythnos monitro.

## Datblygiad Proffesiynol

- Mae pob aelod o staff yn dilyn gweithdrefn Adolygu Datblygiad Proffesiynol sy'n nodi pa hyfforddiant fydd angen arnynt i wireddu'r blaenoriaethau.
- Defnyddir diwrnodau HMS i roi hyfforddiant i staff ar agweddau o'r Cynllun Datblygu yn ogystal a gweithdai amrywiol.

## Cymorth

- Byddwn yn derbyn cymorth gan yr Awdurdod Lleol, swyddogion GWE a'n hysgolion cynghair wrth weithio ar y blaenoriaethau.

## Atebolrwydd

- Mae'r Corff Llywodraethol wedi cymeradwyo'r Cynllun ac yn ein dal yn atebol am ei weithredu. Gwneir hyn yn bennaf yng nghyfarfodydd yr Is Bwyllgor Safonau a gynhelir bob hanner tymor.
- Bydd Estyn yn arolygu'r ysgol yn rheolaidd. Mae copi o adroddiad Estyn Hydref 2022 ar gael ar wefan yr ysgol.